

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg: Canllawiau statudol ar "Gofyn a Gweithredu"

Teitl: Canllawiau statudol ar "Gofyn a Gweithredu"	Cyfeirif yr Asesiad: 15/10/03
Enw'r person sy'n llenwi'r ffurflen:	Hannah Fisher
Dyddiad:	2/10/15
Arweinydd polisi:	Hannah Fisher
Manylion cyswllt:	02920 801064 Hannah.fisher@wales.gsi.gov.uk

Math o Raglen / Prosiect

☐ Polisi ☐ Deddfwriaeth ☐ Grant ☐ Newid busnes ☐ Seilwaith ☐ Adeiladu, Cyfalaf ☐ TGCh ☐ Arall (rhowch fanylion isod os gwelwch yn dda)	☒ Prosiect neu raglen ☐ Ymchwil, gwerthuso ☐ Gwasanaethau ☐ Contractau, tendrau
---	---

Costau: Faint ydych yn disgwyl i'r rhaglen / prosiect gostio dros ei hoed gyfan?				
Llai na £25k	£25k - £49k	£50 - £249K	£250K - £1m	Dros £1m
☐	☐	☐	☒	☐

O'r uchod, rhowch fanylion os oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?

 Costau cyfieithu ar gyfer hyfforddiant, deunyddiau, darparu a chanllawiau.

Pa mor hir ydych yn disgwyl i'r rhaglen / prosiect redeg?					
Hyd at flwyddyn	Hyd at ddwy flynedd	Hyd at bum mlynedd	Hyd at ddeng mlynedd	Mwy na deng mlynedd	Ddim yn gwybod
☐	☐	☐	☒	☐	☐

Dyddiadau cerrig milltir allweddol y rhaglen / prosiect:
 Datblygu canllawiau cychwynnol: Tach 13 – Meh 14
 Cyflwyno'r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Meh 14

Cydsyniad Brenhinol: Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
 Ail-ddatblygu'r canllawiau: Meh 15 – Hyd 15
 Peilot “Gofyn a Gweithredu” mewn dwy ardal fabwysiadu gynnar: Gorff 15 – Medi 16
 Ymgynghori â'r cyhoedd ar y canllawiau: Hyd 15 – Ion 16
 Cyflwyno “Gofyn a Gweithredu” yn genedlaethol: Mawrth 2017

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth fydd ‘llwyddiant’ yn edrych fel?

Proses o ymholiadau targed yw “Gofyn a Gweithredu” sydd i’w hymarfer ar draws y gwasanaeth cyhoeddus er mwyn adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae’r term ymholiadau targed yn disgrifio adnabod arwyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i’w cleientiaid a effeithiwyd arnynt gan unrhyw un o’r pethau hyn.

Nodau “Gofyn a Gweithredu” yw:

- adnabod mwy o bobl sy’n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cynnig atgyfeirio ac ymyriadau i rai sy’n cael eu hadnabod er mwyn rhoi cymorth arbenigol ar sail y risg a’r angen sydd gan y cleient;
- dechrau creu diwylliant ar draws y gwasanaeth cyhoeddus lle mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes a dderbynnir a lle mae datgelu’n cael ei ddisgwyl, ei gefnogi, ei gynorthwyo a’i hwyluso;
- gwella’r ymateb i rai sy’n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ynghyd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl; a
- ymgysylltu’n weithredol, ar y cyfle cyntaf posibl, â rhai sy’n agored i niwed a chuddiedig, yn lle ymgysylltu dim ond wrth ymateb pan fydd pobl mewn argyfwng neu’n wynebu risg daer o niwed difrifol.

Pa opsiynau polisi a ystyriwyd?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na chaiff* y polisi ei weithredu?

Mae’r Papur Gwyn ar ddeddfwriaeth i geisio dod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben (Tachwedd 2012) yn cydnabod nad oedd y gwasanaeth cyhoeddus yn dilyn arferion cyson er mwyn adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ddigon buan.

Cyfeiriwyd gyntaf at gyflwyno proses a ddaeth i gael ei galw’n “Gofyn a Gweithredu” yn yr Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth i geisio dod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben (Tachwedd 2012). Cafodd hwn ei groesawu’n eang gan ymatebwyr.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) a Sefydliad lechyd y Byd yn argymhell system o ymholiadau clinigol targed ar draws y gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn adnabod ac felly ymateb yn well i gam-drin domestig.^{i ii} Mae polisi "Gofyn a Gweithredu" Llywodraeth Cymru'n mynd â'r argymhelliad hwn, a'r arferion da a nodwyd eisoes, ymhellach drwy gefnogi ymholiadau o'r fath ar draws y gwasanaeth cyhoeddus (a hyn i gynnwys gan weithwyr mewn rôl ddiogelu, addysg, Tân ac Achub a thai). Mae hefyd yn cynnig ffocws ychydig yn ehangach ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Ydy'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru sef iaith Fyw: iaith Byw?
Bydd cyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn cynyddu cyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd yr hyfforddiant i gynnal ei gweithrediad yn cael ei ddarparu drwy'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol. Bydd yr holl ddeunyddiau hyfforddi ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a chan ddibynnu ar yr ardal a'r galw etc, bydd yr hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg. Cymerir camau rhagweithiol i sicrhau bod staff Cymraeg eu hiaith yn ymwybodol o'r sesiynau hyfforddiant yn Gymraeg. Dylai'r hyfforddiant hefyd roi canllawiau ar bwysigrwydd gallu cyfathrebu â chleientiaid yn eu mamiaith a pha mor werthfawr yw hyn wrth ofyn cwestiynau sensitif.
Pa effeithiau (cadarnhaol a / neu andwyol) ar yr iaith Gymraeg ydych chi wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?
Gofynnir am farn pobl am effaith "Gofyn a Gweithredu" ar yr iaith Gymraeg yn yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd i'w gynnal ar y canllawiau statudol sy'n disgrifio'r polisi.
Pwy yw'r rhanddeiliaid? Ydy anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau budd iaith Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?
Y rhanddeiliaid yw'r 35,000 o weithwyr sy'n gweithio yn yr adrannau perthnasol o fewn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn arbennig o berthnasol i'r asesiad hwn yw'r 29% o'r gweithlu gwasanaeth cyhoeddus sy'n siarad Cymraeg yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (ONS). Mae anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw: Bydd hyfforddiant, deunyddiau a chanllawiau ar "Gofyn a Gweithredu" ar gael yn ddwyieithog. Bydd y deunyddiau'n cael eu datblygu'n ganolog a'u cyfieithu i gyfyngu ar effaith ariannol y gwaith hwn ar ddarparwyr. Bydd yr hyfforddiant a'r canllawiau ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" yn ymgorffori geirfa cysylltiedig â'r pwnc yn Gymraeg, a chanllawiau ar ddefnyddio iaith a therminoleg Gymraeg ddiogel.
Lle na chafodd asesiad ei gyflawni, neu lle na chafodd effeithiau eu hadnabod, a fydddech gystal â rhoi cyfrif llawn o hyn i bwrpas cadw cofnodion?
Amherthnasol.
Pa weithredu / gwaith pellach sydd wedi'i adnabod yn y cam cynllunio cychwynnol?

CAM 2: ADNABOD AC ASESU EFFEITHIAU			
Crynodeb o'r Asesiad o Effaith			
Crynowch yr asesiad manwl o effaith a wnaed, ynghyd â'r sgoriau a roddwyd.			
Effeithiau cadarnhaol:			
Credwn y bydd gweithredu "Gofyn a Gweithredu", ar y cyfan, yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg ac yn cynnig hyfforddiant i gynulleidfa eang ym mha bynnag iaith sydd orau gan y dysgwr unigol a chan dynnu sylw penodol at werth defnyddio'r Gymraeg wrth weithio â'r grŵp cleientiaid.			
Effeithiau andwyol:			
Ni chredwn y bydd "Gofyn a Gweithredu" yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar yr iaith Gymraeg.			
Cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, e.e. cynyddu statws, defnydd o wasanaethau iaith Gymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd, y Gymraeg yn y gwaith?			
Bydd.			
Tystiolaeth / data a ddefnyddiwyd gan gynnwys proffil demograffig wrth ystyried yr effeithiau:			
Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 562,016 (19%) o ddinasyddion Cymru'n siarad Cymraeg, fodd bynnag mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y Sector Cyhoeddus yn uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol. Rhoddir yr ystadegau a ddefnyddiwyd i lunio'r asesiad hwn isod.			
% o bobl 16+ oed sydd mewn gwaith ac sy'n dweud y medrant siarad Cymraeg, yn ôl sector, am y flwyddyn hyd at 30 Medi 2014			
	Ie, yn gallu siarad Cymraeg	Na, ddim yn gallu siarad Cymraeg	Pawb
Preifat	22	78	100
Cyhoeddus	29	70	100
Gwirfoddol	31	69	100
Ddim ar gael	25	75	100
Pob sector	25	75	100.0
<i>Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, ONS</i>			
Beth yw'r effaith debygol gyffredinol a disgwyledig ar y Gymraeg os caiff y polisi hwn ei weithredu ar sail yr asesiad o effaith / asesiad o risg?	Cadarnhaol: ☒ Andwyol: ☐ Niwtral: ☐ Ddim yn gwybod: ☐		
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad o Effaith	1. Dim newid mawr ☐		

	2. Addasu'r polisi i wella'r effeithiau	☐
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	☐
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a'i ddileu	☐
Os gwnaethoch ateb 2, 3 neu 4 uchod – atebwch y canlynol: Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r iaith Gymraeg? Manylion y mesurau lliniaru / camau gweithredu / opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau andwyol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: Amherthnasol.		
Os byddwch yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi eisiau eu gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ac am faterion cysylltiedig â'r Gymraeg?		
Byddwn yn gofyn i randdeiliaid: Pa gyfleoedd sydd i sicrhau bod "Gofyn a Gweithredu" yn rhoi cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg? A ydych yn poeni y gallai "Gofyn a Gweithredu" gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Rhowch argymhellion penodol y gellid eu hymgorffori yn y canllawiau ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" ar ddefnyddio iaith a therminoleg Gymraeg ddiogel?		

4. Datganiad

Arweinydd polisi: *Dylid dileu yr un amherthnasol: *Mae / nid yw y polisi'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg. Lle mae effeithiau andwyol neu gyfleoedd a gollwyd wedi cael eu nodi, gwnaed y diwygiadau a chymerwyd y camau gweithredu priodol.
Enw: Hannah Fisher
Adran: Tîm Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, Is-adran Diogelwch Cymunedol
Dyddiad(au): 2/10/15
Llofnod: H. Fisher
Dyddiadau Adolygu: Ebrill 2016

ARDYSTIAD ac ADOLYGIAD GAN YR UWCH BERCENNOG CYFRIFOL Rwyf yn fodlon bod y WLIA yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen / prosiect yn y cam hwn yn ei (d)datblygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael sylw priodol. Byddaf yn ailasesu'r rhaglen / prosiect ar adegau allweddol drwy gydol oes y rhaglen / prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnod: Sarah Rhodes (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad 14/10/15
Llofnod:	Dyddiad Adolygu
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu

ⁱ Responding to Intimate partner violence and sexual violence against women. Canllawiau clinigol a pholisi gan Sefydliad Iechyd y Byd (2013)

ⁱⁱ Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively. Nice public health guidelines 50 (Chwefror 2014)